

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Haf Williams (Llansannan) ddechrau'r wythnos. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i thad, Hywel, ac â'i chwirydd a gweddill y teulu i gyd. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drosoch mewn ffordd arbennig ac y byddwch, ynghanol eich tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Anfonwn ein cofion at Edna Evans (Llanfair) sydd heb fod yn dda ei hiechyd y dyddiau hyn, ac at bawb ohonoch sydd wedi derbyn llawdriniaethau a thriniaethau eraill yn ddiweddar. Parhawn i gofio pob un ohonoch yn ein gweddïau, gan ofyn i Dduw eich amgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau i Iorwerth Martin (Nantglyn) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn y dyddiau nesaf! Pob dymuniad da i chi a gobeithio y cewch nerth ac iechyd i fwynhau blynyddoedd lawer eto.

Estynnwn ein dymuniadau gorau hefyd i Sera Evans (Saron) a Cai fydd yn priodi yng Nghapel Saron y penwythnos hwn. Gobeithio y cewch ddathliad hapus a chofiadwy, ac y bydd Duw yn eich bendithio'n helaeth.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych chi angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Apêl Brys Ysbytai Shillong a Jowai

Mewn byr amser, daeth cyfanswm o £1,865.00 trwy law'r Ofalaeth tuag at Apêl Brys Ysbytai Shillong a Jowai a gwyddom yn ogystal fod sawl un ohonoch wedi cyfrannu'n uniongyrchol i'r apêl. Diolch o galon i chi am eich cyfraniadau hael all olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i gleifion yn yr ysbytai hyn. Mae'r ddwy ysbyty, sydd dan ofal yr Eglwys Bresbyteriaidd yn yr India, o dan bwysau aruthrol o ganlyniad i effeithiau Covid-19 yn y wlad.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (30^{ain}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 20 Mehefin 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ymhlith nifer sydd wedi profi'r flwyddyn a hanner ddiwethaf yn anodd mae cyplau oedd ar fin priodi. Gyda chymaint o ansicrwydd ynglŷn â'r canllawiau swyddogol, a'r holl newidiadau sydd wedi effeithio gwahanol sectorau, dwi'n siŵr y bydd llawer yn teimlo rhyddhad wrth i gyfyngiadau ar briodasau ddechrau llacio. Ac fel rhan o'r gwasanaeth priodas traddodiadol, darllenir y geiriau canlynol fel bendith – geiriau sydd wedi cael eu defnyddio gan Gristnogion ledled y byd fel cân boblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar:

"Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw;

bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat, a bod yn drugarog wrthy;

bydded i'r Arglwydd edrych arnat, a rhoi iti heddwch."

O Numeri 6:24-26 y daw'r dyfyniad hwn, ac mae'r cyd-destun gwreiddiol yn dweud llawer wrthym am natur y Duw sy'n bendithio.

Yr Arglwydd sy'n gorchymyn Aaron a'i feibion (yr offeiriaid) i gyhoeddi'r fendith hon dros y bobl. Ac felly'n amlwg, mae'r Arglwydd am i'w bobl wybod sut Un ydyw, a chadarnhau iddynt Ei fwriadau daionus tuag atynt. Ond rydym yn ddigon cyfarwydd ag arweinwyr yn addo gwneud hyn a'r llall i'n gwneud yn amheus. Y cwestiwn mawr yw oes yna weithredu yn ôl yr addewidion? Mor hyfryd yw sylweddoli nad yw'r Arglwydd Dduw yn gweithredu fel arweinwyr dynol meidrol! Er enghraifft, petai Duw yn chwilio am resymau i beidio bendithio'i bobl, roedd ganddo ddigonedd o dystiolaeth, ac mae'r un peth yn wir yn ein hachos ni heddiw hefyd! Ond wrth gael ein bendithio gan yr Arglwydd cawn dderbyn o'i drugaredd, fel y gwelwn yn Salm 103:10, 'Ni wnaeth â ni yn ôl ein pechodau, ac ni thalodd i ni yn ôl ein camweddau.'

Tybed ydym ni'n bobl sydd wedi profi bendith yr Arglwydd? Ydym ni'n gallu dweud bod Creawdwr nefoedd a daear wedi edrych arnom a rhoi heddwch i ni? Efallai nad ydych chi'n teimlo felly ar hyn o bryd, ond cofiwch nad trwy edrych ar ein bywyd y gallwn ateb y fath gwestiynau, ond trwy edrych ar wrthrych ein ffydd. Pan fyddwn yn brwydro yn erbyn amheuan ac amgylchiadau anodd, cofiwch aberth Iesu drosom, a'r datganiad syfrdanol a wnaeth Paul yn Effesiaid 1:3, 'Y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd.' Os ydym wedi dod i berthyn i Iesu trwy ffydd, rydym wedi derbyn cyfoeth di-ben-draw o fendithion, heddiw, ac am byth. Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist!

Dychwelyd i'r Capel

Fel y gwyddoch, rydym fel Gofalaeth wedi ail-ddechrau cydaddoli mewn adeilad ar nos Sul am 6:00 yr hwyr ers ychydig wythnosau bellach gan ddefnyddio'r capel yn Llansannan gan bod mwy o le i ni allu cadw'r pellter angenrheidiol a hefyd oherwydd bod modd darlledu'r oedfa'n fyw ar y we oddi yno. Mae hon yn oedfa i'r Fro gyfan ond gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, rhaid i chi fod wedi cofrestru ymlaen llaw er mwyn sicrhau lle. **Os mai ychydig fydd wedi cofrestru, neu os bydd y tywydd yn braf, hwyrach y bydd newid yn y trefniadau. Os felly, byddwn wedi cysylltu hefo'r rhai fydd wedi cofrestru i'w hysbysu o'r newid hwnnw.**

Rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau fydd mewn lle i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo tu allan a thu mewn i'r Capel, os gwelwch yn dda.

Bydd yr oedfa hefyd yn cael ei darlledu'n fyw ar YouTube **am 6:00 yr hwyr** ac ar gael i chi wrando unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. Gallwch hefyd trwy glicio ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar dudalen flaen y wefan wrando ar yr oedfaon eraill a ddarlledwyd ar-lein dros y flwyddyn ddiwethaf.)

Cyhoeddiadau'r Fro

- Sul – 20^{fed}
- **Oedfa yng Nghapel Cefn Berain** o dan arweiniad Rhodri am 11.00. Cysylltwch ymlaen llaw â Meryl neu Eirian er mwyn sicrhau lle. (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com)
 - **Oedfa i'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb. Cysylltwch â Mair **erbyn nos lau, Mehefin 17^{eg} i gofrestru**, os gwelwch yn dda. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
 - **Oedfa i'r Fro ar YouTube am 6:00 yr hwyr.** Os nad ydych yn gyfforddus i ddod i'r Capel (gweler uchod), gallwch wyllo'r oedfa ar YouTube. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen.)

Llun – 21^{ain}

- **Merched Gyfarfu â Iesu â'u neges i ni heddiw** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Mercher – 23^{ain}

- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Sul – 27^{ain}

- **Oedfa'r Fro ar YouTube** am 6:00 yr hwyr gyda'r Parch. Hywel Meredydd yn pregethu. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno.) ****Sylwch, ni fydd oedfa yn y capel heno.****

Mercher – 30^{ain}

- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Iau – 1^{af}

- **Hyfforddiant i flaenoriaid a diaconiaid y Fro (2)** ar Zoom am 7.00 yr hwyr o dan arweiniad Arwel Jones, Caernarfon.

Sul – 4^{ydd}

- **Oedfa (i aelodau Saron a Pheniell)** yng Nghapel Saron am 10.00 yng nghwmni y Parch. John Robinson. Gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, bydd angen cofrestru ymlaen llaw trwy roi eich enw i Helen neu Trefor erbyn nos lau, Gorffennaf 1^{af}, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa i'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **am 6:00 yr hwyr**. Cysylltwch â Mair **erbyn nos lau, Gorffennaf 1^{af} i gofrestru**, os gwelwch yn dda. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
- **Oedfa FYW ar YouTube.** Os nad ydych yn gyfforddus i ddod i'r Capel (gweler uchod), bydd Oedfa'r Fro hefyd yn fyw ar YouTube **am 6:00 yr hwyr**. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Medal Gee

Cofiwch bod rhaid i bob cais sydd i'w ystyried eleni am Fedal Gee fod wedi cyrraedd Y Parch. Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli LL53 6SH erbyn Mehefin 30^{ain} fan hwyraf. Cliciwch ar y ddolen [Ffurflen Gais Medalau Gee](#) i lawrlwytho ffurflen enwebu, neu cysylltwch â Mair i gael copi papur. (Mwy o fanylion yn y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled.)